**Microsoft Teams**
**Dydd Llun 16 Rhagfyr  10:00 – 12:00**

## Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Y Fonesig Nia Griffith | Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Mark Hobrough | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Liz Lalley | Cyfarwyddwr Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Emma Watkins | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth yn Nhrysorlys Cymru |
| Sioned Evans | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru |
| Alison Thomas | Pennaeth Newid Ymddygiad o ran Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru |
| Nick Wood | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Claire Russell-Griffiths | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jenna Harris | Swyddog Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Adam Gardner | Dirprwy Gyfarwyddwr Tiriogaethau Domestig a Thramor y DU, y Swyddfa Gartref |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Paul Biggs | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Laura Armitt | Cydlynydd Busnes Cymru Gyfan, Plismona yng Nghymru |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Chris Llewelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Amy Rees | Prif Weithredwr, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Paul Morris i ddiwygio dogfen y Flaenraglen Waith, gan sicrhau y caiff yr adborth a gafwyd ei adlewyrchu yn y ddogfen a dosbarthu'r ddogfen ddiwygiedig. | Paul Morris |
| Jane Hutt AS i godi'r mater ynghylch y galw cynyddol ar Wasanaethau Achub Mynydd yn Llywodraeth Cymru. | Jane Hutt AS |

### 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y cyfarfod a chroesawodd y Fonesig Nia Griffith a rhoi croeso ychwanegol i swyddogion y Swyddfa Gartref. Nododd ei bod i fod i gyfarfod â'r Gweinidog Plismona, y Fonesig Diana Johnson AS ar 9 Rhagfyr ond, yn anffodus, bu'n rhaid aildrefnu tan 6 Ionawr 2025.

Dywedodd ei bod am fyfyrio ar y sefyllfa bresennol gan grybwyll bod y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf wedi cytuno y dylid ailwampio Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru er mwyn cael cymaint o werth â phosibl gan y Bwrdd fel fforwm a sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau a rennir sy'n cadw Cymru yn ddiogel. Cafwyd cytundeb hefyd i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru a nodd y bydd yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog gydag Ysgrifenyddion perthnasol y Cabinet yn Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno ar y Memorandwm Cyd-dealltwriaeth, a dilynir hyn gan gymeradwyaeth ffurfiol yn y Cabinet.

Gwnaeth y Cadeirydd hefyd longyfarch y Prif Gwnstabl Mark Hobrough yn dilyn ei benodiad yn Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.

### 2. Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru – I'w gymeradwyo

Nododd Paul Morris fod yr adborth a gafwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi cael ei ymgorffori, yn ogystal â'r sylwadau gan swyddfa'r Fonesig Nia Griffith felly, os bydd y Bwrdd yn cytuno, mae'n credu y gellid cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Bwrdd.

**2.1.** Daeth y Cadeirydd â'r mater i ben drwy nodi bod yr adborth a gafwyd wedi bod yn ddefnyddiol a nododd y caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu bob blwyddyn ym mis Rhagfyr. Gorffennodd drwy gadarnhau bod pawb yn cytuno i gymeradwyo Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

### 3. Blaenraglen Waith Arfaethedig ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem drwy esbonio mai'r diben yw sicrhau bod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn gweithio ar gyfer pob sefydliad cysylltiedig. Dywedodd fod Plismona yng Nghymru yn un o bartneriaid dibynadwy Llywodraeth Cymru a bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad a rennir a'r trefniadau cydweithio yng Nghymru.

**3.1.** Ategodd y Comisiynydd Llywelyn y sylwadau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth gan fod Plismona yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r hyn y gellir ei gyflawni mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau datganoledig eraill ledled Cymru. Disgrifiodd y ddogfen a nododd fod pwysigrwydd y gydberthynas honno wedi'i adlewyrchu yn y Flaenraglen Waith ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at gryfhau gwaith partneriaeth ond mae'n teimlo bod angen cydnabod y dylai'r ddogfen fod yn hyblyg gan fod Cynlluniau'r Heddlu a Throseddu Comisiynwyr wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a dywedodd fod angen bod yn ystyriol o uchelgeisiau Llywodraeth y DU hefyd.

**3.2.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman fod y rhaglen yn sylfaen dda ar gyfer tynnu sylw at y meysydd y mae angen i'r Bwrdd ganolbwyntio arnynt yn ogystal â chadarnhau eu bod yn cyd-fynd â Chynlluniau'r Heddlu a Throseddu, felly pwysleisiodd fod angen hyblygrwydd wrth i Plismona yng Nghymru weithio drwy'r cynlluniau i Ddiwygio Tirwedd yr Heddlu.

**3.3.** Dywedodd Paul Morris ei fod yn ddiolchgar i Swyddogion Llywodraeth Cymru am rannu'r ddogfen ag arweinwyr polisi amrywiol yn Llywodraeth Cymru ac esboniodd y cafwyd rhai awgrymiadau a gaiff eu hystyried. Ychwanegodd fod y Comisiynydd Wools wedi awgrymu yn ystod cyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid mireinio'r elfennau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ychydig er mwyn eu hymgorffori o dan bennawd ehangach mewn perthynas â chydweithio rhwng Plismona, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**3.4.** Holodd y Prif Gwnstabl Blakeman a oes angen bod yn fwy penodol o ran Trais yn Erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan ei fod yn cael ei grybwyll ond mae'n teimlo y dylid cynnwys rhagor o fanylion gan ei fod ymhlith y prif faterion yr ymdrinnir â nhw ar hyn o bryd.

**3.5.** Diolchodd y Cadeirydd i'r grŵp am yr adborth a dywedodd ei bod yn cyd-gadeirio'r bwrdd partneriaeth i gyflawni'r Strategaeth ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyda'r Comisiynydd Llywelyn a'r Comisiynydd Wools. Nododd fod llawer o rwystredigaeth mewn perthynas â lefel y cam-drin a thrais domestig, felly mae angen pwysleisio ei fod yn faes polisi ataliol, ond roedd yn cytuno bod cyfrifoldebau clir yng Nghymru ac yn teimlo y gall fod yn fuddiol mireinio ychydig rhwng Cymru a'r synergedd â Llywodraeth y DU, fel y crybwyllodd y Comisiynydd Llywelyn.

**3.6.** Roedd y Fonesig Nia Griffith yn cytuno a dywedodd ei bod yn deall ym mha gyd-destun yr ysgrifennwyd y ddogfen gan fod Plismona yng Nghymru yn aros i weld sut y bydd blaenoriaethau'r DU ar y Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched yn datblygu gan fod y rhain yn ddau faes pwysig y mae Llywodraeth y DU yn eu blaenoriaethu. Cydnabu y gall fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y ffaith bod Cymru wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn ac ymgymryd â rôl arweiniol mewn sawl agwedd.

**3.7.** Gofynnodd y Cadeirydd i Paul Morris a ellid adlewyrchu hyn yn y ddogfen, gan ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn falch iawn o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU mewn ffordd llawer mwy egnïol.
**Cam Gweithredu: Paul Morris i ddiwygio dogfen y Flaenraglen Waith, gan sicrhau y caiff yr adborth a gafwyd ei adlewyrchu yn y ddogfen a dosbarthu'r ddogfen ddiwygiedig.**

## 4. Diwygio Tirwedd yr Heddlu: Trafodaeth a Myfyrdodau

Agorodd y Comisiynydd Llywelyn yr eitem drwy esbonio bod nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal mewn perthynas â Diwygio Tirwedd yr Heddlu sy'n cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid, yn ogystal ag unigolion o sefydliadau eraill megis Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, y Coleg Plismona ac ati. Mae'n teimlo ei fod yn gadarnhaol yr ymgysylltwyd â Plismona yng Nghymru drwy gydol y broses hon hyd yn hyn, ond mae'n credu bod y ffordd yr eir i'r afael â hyn yn raddol wrth iddo symud ymlaen i'r cam ymgysylltu yn bwysig a beth y gall hynny ei olygu i blismona cyn iddo gael ei gyhoeddi fel Papur Gwyn.

Crybwyllodd sesiwn benodol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn y dyfodol, yn ogystal â sesiwn ar yr elfen atebolrwydd leol, gan ganolbwyntio ar fodel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Nododd mewn perthynas â ffactorau megis gweithgarwch Plant a Phobl Ifanc a Dyfodol Ieuenctid, mae rhywfaint o bwyslais ar strwythurau Maerol yn rhanbarthau Lloegr, felly mae Comisiynwyr Cymru yn ceisio dadansoddi'r ddealltwriaeth honno o ran y ffordd y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gweithio yng Nghymru. Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn fod Plismona yng Nghymru yn ceisio pwysleisio bod rhywfaint o'r seilwaith, megis trefniadau llywodraethu, eisoes yn bodoli yng Nghymru, megis y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel.

**4.1.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman fod llawer o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bod ymrwymiad gan Weinidogion i ddull gweithredu cyd-greu. Dywedodd fod Louisa Rolfe o'r Heddlu Metropolitanaidd wedi cael ei phenodi'n Uwch-arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a bod sgyrsiau wedi cael eu cynnal â hi i sicrhau bod Cymru yn cael ei chynnwys yn hyn, o ran deall y gwahaniaethau, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny o safbwynt plismona. Pwysleisiodd fod angen cynllun clir er mwyn deall sut mae plismona yn symud o'r system bresennol i ddull diwygiedig, a bod y trefniadau

llywodraethu yn hyn o beth yn cael eu pennu ar hyn o bryd. Mae ymrwymiad cadarn gan Brif Gwnstabliaid Cymru i ddarparu adnoddau ar gyfer y tîm canolog. Mae'n credu mai'r prif bwynt myfyrio yw bod y system y mae plismona yn gweithredu ynddi ar hyn o bryd wedi cael ei datblygu 60-70 o flynyddoedd yn ôl ac, er bod rhannau ohoni yn gweithio o hyd, mae plismona yn wynebu bygythiadau sy'n datblygu'n barhaus o ran troseddoldeb, yn ogystal â bygythiadau cenedlaethol a byd-eang. Dylai diwygio'r dirwedd ganiatáu i Brif Gwnstabliaid allu canolbwyntio ar faterion lleol a Phlismona yn y Gymdogaeth, gan alluogi plismona i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

**4.2.** Cydnabu'r Cadeirydd y sefyllfa bresennol, gan nodi ei bod wedi cyfarfod â'r Prif Gwnstabl Blakeman a'r Prif Gwnstabl Vaughan yn ddiweddar, yn ogystal â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, er mwyn deall sut mae Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â hyn o ran y ffordd y mae'r bartneriaeth wedi datblygu yng Nghymru. Dywedodd fod angen sicrhau y gall rhanddeiliaid yng Nghymru ddeall a chyfrannu gan fod hyn yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddiweddaru a diwygio plismona yng Nghymru. Daeth â'r eitem i ben drwy ddweud ei bod yn gobeithio rhannu'r drafodaeth â'r Fonesig Diana Johnson AS pan fyddant yn cyfarfod ym mis Ionawr 2025.

**5a.) Datblygu Cyllideb 2025/26**
Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn fod y gyllideb ar y cam rhagolygon ar hyn o bryd. Dywedodd ei fod yn gobeithio y caiff y setliad ar gyfer plismona ei gyhoeddi y diwrnod ar ôl y cyfarfod hwn a fydd yn ein helpu i ddeall y sefyllfa o safbwynt heddluoedd unigol. Ychwanegodd ei fod yn credu y bydd bwlch rhwng yr hyn y mae plismona yn ei dybio fydd y setliad tebygol gan y Swyddfa Gartref a gofynion heddluoedd. Nododd fod y bwlch cyllido yn Heddlu Dyfed Powys tua £6.8m a dywedodd, fel enghraifft, fod dyfarniadau cyflog yn cyfrannu at hyn gan y byddai'r Swyddfa Gartref fel arfer yn rhoi syniad o'r swm y dylai heddluoedd ei glustnodi ar gyfer cynyddu cyflogau. Roedd y dybiaeth cyflog ar gyfer y flwyddyn nesaf yn 2%, ond awgrymodd cyhoeddiad diweddar y dylai fod tua 2.8% a allai greu diffyg posibl gan nad yw'n glir ar hyn o bryd a fydd yn cael ei ariannu. Felly, yn dibynnu ar y setliad, mae'n bosibl y bydd lefel praesept Heddlu Dyfed Powys tua 10% neu'n uwch yn dibynnu ar y setliad a gyhoeddir, sy'n anodd i gymunedau.

**5.a.1.** Cytunodd y Comisiynydd Wools â phwyntiau'r Comisiynydd Llywelyn, gan ychwanegu bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr. Mae'r Comisiynwyr wedi cael manylion am grant craidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y bu'n rhaid ei leihau tua 4%, sydd wedi rhoi Comisiynwyr mewn sefyllfa heriol o ran comisiynu gwasanaethau allweddol i ddioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr VAWDASV, felly maent yn ceisio canfod ffordd o ymestyn y grant presennol gymaint â phosibl fel y gall darparwyr trydydd sector barhau i ddarparu gwasanaethau.

**5.a.2.** Dywedodd y Comisiynydd Dunbobbin fod Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfa debyg i'r heddluoedd eraill yng Nghymru a bod llawer o waith wedi'i wneud yn yr heddlu i bennu lefel y praesept a fydd yn ofynnol, ond mae hefyd yn aros am y cyhoeddiad fel yr heddluoedd eraill.

**5.a.3.** Cytunodd y Comisiynydd Mudd a nododd fod Gwent mewn sefyllfa debyg. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y cyhoeddiad yn rhoi sicrwydd iddynt, a'i bod yn deall bod adrannau'r llywodraeth yn adolygu ac yn ailbroffilio gwariant, ond mae angen gwell dealltwriaeth ar heddluoedd o ran effaith gyffredinol hynny.

**5.a.4.** Myfyriodd y Prif Gwnstabl Blakeman ar y trafodaethau heriol ynghylch pennu cyllidebau sydd wedi cael eu cynnal, gan nodi bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn adolygu pob heddlu ac yn aml yn awgrymu meysydd amrywiol i'w gwella. Mae amrywiaeth o gostau yn gysylltiedig â phob un o'r rhain, megis staff ychwanegol, prosesau archwilio ychwanegol neu drefniadau llywodraethu ychwanegol, a hynny wrth ystyried y dyfarniad cyflog a nodwyd gan y Comisiynydd Llywelyn hefyd. Ychwanegodd fod gan awdurdodau lleol yn ardal pob heddlu eu heriau eu hunain a'u bod felly'n ystyried pa wasanaethau y gallant eu cwtogi ac nad yw'r heddluoedd wedi gallu ystyried hynny yn eu cyllidebau. Mae heddluoedd hefyd yn ceisio cydbwyso mater anodd buddsoddiad cyfalaf gan fod angen datblygu technoleg yn sylweddol yn ogystal â gwario ar ystadau a cherbydau. Gall hyn olygu bod heddluoedd mewn sefyllfa heriol o ran ceisio mantoli'r cyfrifon pan fyddant yn mynd gerbron Paneli'r

Heddlu a Throseddu gyda chais rhesymol, ond mae'n ei gwneud hi'n anodd i heddluoedd gynllunio ymlaen llaw.

**5.a.5.** Nododd y Prif Gwnstabl Lewis fod natur trafodaethau ynghylch cyllid wedi newid yn ystod ei gyfnod fel yn y swydd. Chwe blynedd yn ôl, esboniodd y byddai'r trafodaethau yn ymwneud â gwariant ychwanegol, ond bod y sgwrs wedi newid erbyn hyn i drafod sut i bontio'r bylchau a gaiff eu creu gan gyhoeddiadau cyllid Llywodraeth y DU, megis y Dyfarniad Cyflog. Dywedodd ei fod yn teimlo bod cyllid yn cael ei drafod o safbwynt gwariant o ddydd i ddydd yn hytrach nag ariannu'r pethau ychwanegol, ac ychwanegodd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael ceisiadau i ariannu cronfeydd y byddai Llywodraeth y DU wedi bod yn gyfrifol amdanynt fel arfer. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Prif Gwnstabl fod gwaith ardderchog yn cael ei wneud gan bob heddlu yng Nghymru o hyd, er gwaethaf setliadau'r gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, gan nodi bod Heddlu Dyfed Powys wedi lleihau troseddau 18% y llynedd, sef y gostyngiad mwyaf yng Nghymru a Lloegr.

**5.a.6.** Ategodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylwadau'r cyfranogwyr eraill, gan nodi bod angen diwygio cyllid, gan nad yw heddluoedd yn cael eu hariannu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r pwysau ariannol presennol ar hyn o bryd gan fod hen fformiwla gyllido yn cael ei defnyddio. Ychwanegodd fod plismona yn parhau i fod yn elfen o wariant Llywodraeth y DU nad yw'n cael ei diogelu, felly ni chaiff ei diogelu mewn cyfnodau o galedi ariannol ac nid oes gan blismona unrhyw gyllid cyfalaf. Nododd nad yw lefel yr oruchwyliaeth a'r atebolrwydd yn lleihau gan y bydd yr arolygiaeth yn gwneud nifer o argymhellion nad ydynt wedi'u costio, felly mae heddluoedd yn aml yn gorfod ailfuddsoddi mewn meysydd er mwyn ymateb i nifer o argymhellion gan achosi pwysau ariannol ychwanegol.

**5c.) Myfyrdodau ar Gyllideb Llywodraeth Cymru**
Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu mewnbwn, gan gydnabod y sefyllfa y mae heddluoedd ynddi a'u bod yn aros am eglurder gan Lywodraeth y DU. Nododd ei bod yn ddifrifol clywed am yr heriau gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid ond ei bod yn ddefnyddiol bod y Fonesig Nia Griffith yn bresennol, yn ogystal â'r cyfarfod sydd wedi'i drefnu â'r Fonesig Diana Johnson ym mis Ionawr 2025. Gofynnodd i Emma Watkins fyfyrio ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

**5.c.1.** Dywedodd Emma Watkins fod gan Lywodraeth Cymru gyllideb ddrafft erbyn hyn a nododd ei bod yn fwy cadarnhaol na'r un y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Esboniodd fod cyllideb Llywodraeth Cymru oddeutu £26bn bellach, a bod 80% ohoni yn dod o Gyllid Grant Bloc Barnett drwy Lywodraeth y DU a bod yr 20% sy'n weddill yn dod o drethi datganoledig. Drwy'r gyllideb, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi gallu buddsoddi £1.5bn ychwanegol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Nododd, yn seiliedig ar y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r heriau ynghylch cyllid cyfalaf ar gyfer plismona, ei bod yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael mwy o gyfalaf yng nghyllideb Llywodraeth Cymru nag y mae wedi'i gael mewn blynyddoedd blaenorol a bod hyn yn golygu y gall gyhoeddi dros £3bn o gynlluniau gwariant cyfalaf sy'n bwysig yn ei barn hi, yn enwedig i wasanaethau cyhoeddus. Bydd pob adran yn Llywodraeth Cymru yn cael budd o gynnydd mewn cyllid refeniw a chyfalaf. Er bod y gyllideb yn well na'r disgwyl, mae'r rhagolygon ar gyfer 2025/26 yn heriol o hyd ac mae Llywodraeth Cymru yn aros yn eiddgar am Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, ond mae Trysorlys Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Thrysorlys EF yn hyn o beth.

**5.c.2.** Diolchodd y Cadeirydd i Emma Watkins am y trosolwg cynhwysfawr, gan nodi ei bod yn credu y bydd y pwyntiau a godwyd yn cefnogi'r dull partneriaeth o ddarparu gwasanaethau ar lefel leol o ran gwasanaethau datganoledig. Nododd ei bod yn gadarnhaol bod cyllideb ddrafft sy'n caniatáu £1.5bn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a bod angen sicrhau bod popeth yn gweithio gyda phlismona o ran atal ac ymyrryd yn gynnar.

**5.c.3.** Roedd y Comisiynydd Llywelyn am wneud sylw mewn perthynas â chyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, sy'n cynnig cymorth uniongyrchol i heddluoedd er mwyn sicrhau bod presenoldeb Plismona yn y Gymdogaeth ar gael. Mae'r cyfraniad hwn yn hollbwysig ac yn cael ei

gydnabod, er bod penderfyniadau anodd wedi cael eu gwneud y llynedd mewn perthynas â'r llinell honno yn y gyllideb. Roedd am dynnu sylw at y ffaith bod gan heddluoedd lai o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn cymunedau, ond dywedodd ei bod yn dda gweld cynnydd yn y cwantwm hwnnw yn y gyllideb ddrafft. Roedd am gydnabod hynny a diolch i Lywodraeth Cymru am ei chymorth parhaus gan ei fod yn teimlo na fyddai Timau Plismona yn y Gymdogaeth yng Nghymru yn y sefyllfa y maent ynddi fel arall o ran eu presenoldeb corfforol mewn cymunedau bob dydd.

**5.c.4.** Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn wych clywed am y gwaith sydd wedi cael ei wneud a'i bod yn teimlo y bydd hyn yn bwydo i mewn i'r gwaith cydlyniant cymunedol a nodwyd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a diogelwch cymunedol. Cydnabu fod plismona yn symud tuag at senario gyllidebol heriol, ond mae'n ymddangos bod hon yn gyllideb ddrafft gadarnhaol. Esboniodd y bydd y gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 25 Chwefror 2025 ar y cyd â'r setliad Llywodraeth Leol terfynol. O ran Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £15m yn 2025/26 o hyd sy'n fwy na'r hyn sydd ar gael i heddluoedd yn Lloegr, ond mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi £50,000 tuag at waith ymchwil ar effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru er mwyn dangos buddion y cyllid.

## 6. Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru a Phartneriaeth Lleihau Anafiadau GanBwyll

Trafododd y Comisiynydd Llywelyn effaith prosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â ffyrdd 30mya ac 20mya; nododd fod hyn wedi cael effaith ar sefyllfa ariannol partneriaeth GanBwyll ond yr elfen arall y mae plismona yn awyddus i'w gweld yn datblygu yw Strategaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae'r strategaeth flaenorol wedi dod i ben ac mae plismona yn awyddus i weithio ochr yn ochr â Swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu hyn gan y byddai hyn yn rhoi ymdeimlad o gyfeiriad strategol y gweithgarwch i blismona, y mae GanBwyll yn elfen allweddol ohono. Ychwanegodd fod cyfarfod cadarnhaol wedi cael ei gynnal â Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, mewn perthynas â'r bwlch cyllido ar gyfer GanBwyll.

**6.1.** Ymatebodd y Cadeirydd gan ddweud ei bod yn falch bod y cyfarfod gyda Ken Skates wedi mynd yn dda a'i bod yn ymwybodol ei fod wedi clustnodi £3.6m i GanBwyll ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Nododd fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â phartneriaeth GanBwyll, gan sicrhau bod cynrychiolwyr o'r heddlu ar y Grŵp Llywio 20mya yn ogystal â swyddog dynodedig yn Uned Gyswllt yr Heddlu.

**6.2.** Cytunodd y Prif Gwnstabl Blakeman â chrynodeb y Cadeirydd a nododd er bod llawer o waith wedi'i wneud ar hyn, mae llawer i'w wneud o hyd, ond bydd y gallu i weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ddatblygu yn hanfodol ar gyfer plismona. Esboniodd fod y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Dave Guiney wedi cael y cyfrifoldeb am ddwyn ynghyd y gwaith o ddatblygu'r prosiect hwnnw a llywio'r ffordd y caiff yr adolygiad ei gynnal er mwyn datblygu model mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

**6.3.** Nododd Alison Thomas fod Ken Skates AS yn ddiolchgar ac yn gefnogol o'r gwaith sydd wedi'i wneud. Esboniodd fod cais am £2.84m ychwanegol mewn cyllid refeniw a £360,000 mewn cyllid cyfalaf i gefnogi sefyllfa GanBwyll yn ystod y flwyddyn. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i adolygu'r sefyllfa gyllidebol yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio nodi cyfleoedd cyllido posibl i bontio'r bwlch. Trafodwyd yr heriau tymor hwy yn ystod y cyfarfod hefyd; awgrymodd Ken Skates AS fod adolygiad gweithredol o GanBwyll yn debygol o gael ei gynnal er mwyn adolygu unrhyw newidiadau a all fod yn ofynnol er mwyn gwneud yr ateb cyllido yn fwy cynaliadwy.

## 7. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio

**7.1.** Nododd y Comisiynydd Llywelyn yr hoffai Plismona yng Nghymru gyflwyno mater y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus gerbron y Bwrdd. Esboniodd fod

Plismona yng Nghymru yn awyddus i fod mewn sefyllfa i lofnodi dogfen ar lefel Cymru yn ystod Gwanwyn 2025. Hoffent ganfod a all fod cyfle i'r Prif Weinidog ei llofnodi. Ychwanegodd y gellir darparu rhagor o fanylion ar ôl y cyfarfod.

**7.2.** Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Travis wedi gwneud gwaith gwych mewn perthynas â sicrhau bod yr Esgob James Jones a'r tîm sydd wedi bod yn arwain yr ymholiadau hyn yn teimlo bod Cymru yn ymwneud mwy â chymeradwyo'r siarter. Mae'n teimlo y byddai'n gyfle gwych i Gymru ymrwymo i hyn fel cenedl ac yn bendant y byddai eraill yn dilyn ei hesiampl. Mae'n awyddus i sicrhau bod gwaith yn parhau mewn perthynas ag argyfyngau sifil er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn mor gryf â phosibl ac mae'n awyddus i beidio â cholli golwg ar ba mor dda yw Cymru am ymateb i ddigwyddiadau mawr ac argyfyngau sy'n effeithio ar gymunedau.

**7.3.** Cefnogodd y Prif Gwnstabl Blakeman bwynt y Prif Gwnstabl Vaughan a nododd pa mor dda mae sefydliadau yng Nghymru yn cydweithio mewn perthynas â materion megis Storm Darragh, a chyfeiriodd at y materion presennol gyda Phorthladd Caergybi fel enghraifft. Mae tensiwn a phwysau cynyddol mewn perthynas â thraffig gyda cherbydau nwyddau trwm, felly nododd ei bod yn awyddus i gynnal cydberthnasau gwaith da gyda phob asiantaeth sydd â'i chyfrifoldebau ei hun.

**7.4.** Nododd y Cadeirydd fod y gydberthynas yn un sy'n golygu y gallant ymgysylltu ar argyfyngau sifil pan fo angen a chytunwyd ar bwysigrwydd hyn. Ychwanegodd mewn perthynas â'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau ei bod yn cael sylw blaenllaw fel mater pwysig iawn i'r Cabinet a'r Prif Weinidog. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gofynion sydd ynghlwm â llofnodi'r Siarter gan fod y Prif Weinidog yn cefnogi'r egwyddorion.

## 8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (24/10/24)

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cofnodion yn gywir a nodwyd bod cam gweithredu 2 o'r cyfarfod ar 24 Hydref 2025 yn mynd rhagddo.

## 9. Unrhyw Fater Arall

**Gwasanaethau Achub Mynydd yng Nghymru: Pwysau yn sgil Galw a Chyfleoedd i Atal – y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman**

Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cael adroddiadau am alw digynsail ar y Gwasanaethau Achub Mynydd gwirfoddol, sydd eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae pwysau ar y tîm nad yw'n gallu ei gynnal felly cyfarfu â'r grŵp a chytunodd fod angen gwneud gwaith mewn perthynas ag atal. Nododd mai grŵp gwirfoddol yw hwn ac felly er bod y gwaith yn cael ei gefnogi gan Heddlu Gogledd Cymru, mae'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol deall pa adran o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y Gwasanaethau Achub Mynydd. Byddai hyn yn galluogi trafodaeth ystyrlon i ystyried atal yn bennaf, ond hefyd weithio gyda'r gwirfoddolwyr i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Gwnstabl Blakeman am godi'r mater hwn a dywedodd y bydd yn trafod y pwynt hwn â'r ystod amrywiol o bortffolios perthnasol, megis Iechyd y Cyhoedd a Materion Amgylcheddol a Gwledig.
**Cam Gweithredu: Jane Hutt AS i godi'r mater ynghylch y galw cynyddol ar Wasanaethau Achub Mynydd yn Llywodraeth Cymru.**

**Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel – Cyhoeddiad Llywodraeth y DU – y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan**

Roedd y Prif Gwnstabl Vaughan yn teimlo bod y Bwrdd eisoes wedi ymdrin â Chenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel fel rhan o'r agenda, ond roedd am ychwanegu ei bod yn debygol mai'r safonau perfformiad a gaiff eu cyflwyno fydd y pwynt cyntaf a gaiff ei lansio. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ystyried

yr hyn y mae'n ei ystyried yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer mentrau megis y Warant Plismona yn y Gymdogaeth a haneru Trais yn erbyn Menywod a Merched. Mae'n teimlo bod angen monitro hyn ar y cyd oherwydd gall rhai o'r mesurau o dan y Warant Plismona yn y Gymdogaeth fod yn fesurau i leihau costau a fydd yn ystyried y ffordd y mae heddluoedd yn gweithio gyda phartneriaid yn ogystal â pha mor effeithiol yw plismona fel asiantaeth unigol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Gwnstabl Vaughan am godi'r mater hwn a chytunodd y bydd angen monitro hyn ar y cyd.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Mercher 2 Ebrill 2025 10:30-12:30